# LLOYD, HUGH (1546 - 1601), prifathro Ysgol Winchester

**Enw:** Hugh Lloyd
**Dyddiad geni:** 1546
**Dyddiad marw:** 1601
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** prifathro Ysgol Winchester
**Maes gweithgaredd:** Addysg
**Awdur:** John James Jones

Ganwyd yn Ll n, brawd i John Lloyd, ysgolhaig clasurol (1558 - 1603). Aeth i Gaerwynt yn y flwyddyn 1560 ac i New College, Rhydychen, lle y gwnaethpwyd ef yn gymrawd ar brawf, 5 Ionawr 1562, a chymrawd parhaol, 1564 (B.A. 1566, B.C.L. 1570, a D.C.L. 1588). Daeth yn ganghellor Rochester, 1578, ficer Charlbury, sir Rydychen, 1579, a phrifathro Caerwynt o 1580 hyd 1587 - un o lawer o Gymry 'r cyfnod a oedd yn ysgolfeistri yn Lloegr. Penodwyd ef yn brebendari eglwys gadeiriol S. Paul, 12 Tachwedd 1584, a rheithor Islip, ger Rhydychen, 1588. Ysgrifennodd *Phrases elegantiores ex Caesaris Commentariis, Cicerone, aliisque, in usum Scholae Winton* (Oxford, 1654). Bu farw 19 Hydref 1601, a chladdwyd ef yng nghapel allanol New College.

## Awdur

**John James Jones**, (1892 - 1957)

## Ffynonellau


*Oxford Dictionary of National Biography*


## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 55675437

Wikidata: Q16859746


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu